Date • Dyddiad	11.12.2020
Your ref • Eich cyfeirnod	
My ref • Fy nghyfeirnod	Trefniadau diwedd Tymor
Telephone • Ffôn	01437 775350
Email • Ebost	

www.pembrokeshire.gov.uk / www.sir-benfro.gov.uk

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

IAN WESTLEY, M.A. B.Eng.(Hons), C.Eng., M.I.Mech.E., M.C.I.B.S.E.
Chief Executive / Prif Weithredwr

STEVEN RICHARDS-DOWNES
Director of Education
Cyfarwyddwr Addysg

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Telephone / Ffôn 01437 764551

Please ask for
Os gwelwch yn dda gofynnwch am

Steven Richards-Downes

Llythyr gan y Cyfarwyddwr Addysg at holl Rieni a Gofalwyr plant sy'n mynychu Ysgolion Sir Benfro

Annwyl Rhieni / Gofalwyr,

Fel y gwyddoch, mae'r nifer o achosion y Coronafeirws yn cynyddu'n gyflym ar draws Cymru, gan gynnwys Sir Benfro.

Yn dilyn y cyngor a dderbyniwyd gan y Prif Swyddog Meddygol, mae'r Gweinidog wedi rhoi cyfarwyddyd i ysgolion uwchradd wneud trefniadau ar gyfer gweithgareddau dysgu o bell o ddydd Llun 14 Rhagfyr ymlaen. Golygir hyn mai'r diwrnod olaf ar safle'r ysgol i ddisgyblion uwchradd fydd Dydd Gwener 11 Rhagfyr.

Cyngor y Prif Swyddog Meddygol hefyd yw y dylid cadw cyn lleied o gyswllt cymdeithasol â phosibl er mwyn i'n dysgwyr aros yn ddiogel ac yn iach.

Yn yr un modd, mae Ysgolion Cynradd yn ei chael hi'n fwyfwy anodd cynnal lefelau staffio wrth i fwy o staff a'u teuluoedd gael eu hadnabod fel cysylltiadau neu brofi symptomau gan orfodi iddynt drefnu profion. Mae gan ysgolion opsiynau staffio cyfyngedig oherwydd yr angen i wahanu grwpiau cyswllt er mwyn atal y feirws rhag lledaenu. Yr ydym yn pryderu y bydd y sefyllfa hon yn gwaethygu yn yr wythnos i ddod.

Rydym wedi penderfynu y dylai ysgolion cynradd hefyd symud tuag at ddull dysgu o bell o ddydd Mawrth 15 Rhagfyr. Mae hyn yn golygu mai'r diwrnod olaf ar safleoedd ysgol i ddysgwyr cynradd fydd dydd Llun 14 Rhagfyr.

Fodd bynnag, bydd ysgolion yn gallu cynnig gofal plant i blant gweithwyr hanfodol tan ddydd Mercher 16 Rhagfyr, ac i'r rhai sydd â'r angen mwyaf hyd at ddydd Gwener 18 Rhagfyr. Mae aelwydydd bellach yn gallu ymestyn i un aelwyd arall, sy'n gwneud neiniau a theidiau ac aelodau eraill o'r teulu yn opsiwn y dylid ei archwilio i'r eithaf.

We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise). / Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth a dderbyniwyd (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol).

For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above. / Os am gopi mewn print mawr, fformat hawdd ei ddarllen, Braille, sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod.

Dylai rhieni sydd angen cymorth gyda gofal plant gysylltu ag ysgol eu plentyn. Yn ogystal, fel yr ydym wedi'i wneud drwy gydol y pandemig, byddwn yn parhau i ddarparu cymorth i'n dysgwyr bregus a bydd ein hysgolion yn cysylltu'n briodol â theuluoedd yn ystod wythnos olaf y tymor hwn er mwyn hwyluso hyn.
Os yw eich plentyn yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, byddwch yn derbyn taliad BACS.

Ar yr 17eg o Rhagfyr bydd ysgolion yn adolygu eu hasesiadau risg ac yn sicrhau bod unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud cyn i ysgolion ddychwelyd ym mis Ionawr. Bydd hyn yn cynnwys adolygu grwpiau cyswllt, trefniadau ar gyfer dechrau fesul cam a sicrhau bod ein hysgolion yn parhau i fod yn amgylcheddau diogel i'n dysgwyr. Bydd ysgolion yn rhoi gwybod i chi am unrhyw drefniadau diwygiedig maes o law.

Ar y 18fed o Rhagfyr, bydd ysgolion yn cynllunio ar gyfer dechrau Tymor y Gwanwyn 2021. Mae hyn yn golygu y bydd staff yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth o senarios a allai gynnwys addysgu wyneb yn wyneb a pharatoi ar gyfer amrywiaeth o opsiynau dysgu o bell.

Bydd ysgolion yn parhau i gefnogi'r system Profi Olrhain a Diogelu tan 18 Rhagfyr ac ar ôl hynny os yw eich plentyn wedi bod mewn lleoliad ac wedi datblygu symptomau dylech e-bostio Education.coronavirus@pembrokeshire.gov.uk.

Os oes gan eich plentyn, neu unrhyw aelod o'ch cartre,f symptomau Covid-19 yn ystod cyfnod y gwyliau, parhewch i ofyn am brawf drwy ffonio 119 neu ddefnyddio'r porth ar https://llyw.cymru/cael-prawf-coronafeirws-covid-19.

Os oes gan eich plentyn ganlyniad prawf Covid cadarnhaol dros gyfnod y gwyliau, anfonwch e-bost at education.coronavirus@pembrokehsire.gov.uk gan nodi enw, ysgol a grŵp blwyddyn eich plentyn. Sylwer bod y cyfnod hunan ynysu bellach yn 10 diwrnod.

Mae disgyblion yn ein hysgolion wedi bod yn hynod gyfrifol yn eu hymateb i'r heriau a wynebir yn ystod y tymor hwn, ac rydym yn falch iawn ohonynt. Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni/gofalwyr am eich cydweithrediad a'n holl staff am eu hymroddiad y tymor hwn.

Yn ddiffuant,



Steven Richards-Downes
Cyfarwyddwr Addysg